## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE GWENT PUBLIC SERVICES BOARD SCRUTINY COMMITTEE**

**PWNC:** **GWENT PUBLIC SERVICES BOARD SCRUTINY COMMITTEE - DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2023 DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2023**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: E. Jones
T. Smith
Evans
Williams
Hussain
Stowell-Corten
Jones
Watts
Williams

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:<br>Stephen Tiley - GAVO<br>Peter Farley - GAVO<br>Steve Morgan – Cyfoeth Naturiol Cymru | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sarah King – Blaenau Gwent<br>Scott Morris – Tân ac Achub De Cymru<br>Cynghorydd Jen Morgan, Y.H. – Awdurdod Tân ac Achub Gwent | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniadau'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r penderfyniadau. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Ddalen Weithredu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>DRAFFT GYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau (Blaenau Gwent).<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a<br>(i) chytuno ar y Drafft Gylch Gorchwyl (Atodiad 1);<br>(ii) cytuno y byddai'r Cadeirydd am y flwyddyn gyntaf (Mehefin 2023-Mai 2024) yn gynrychiolydd a enwebir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sef y Cynghorydd Tommy Smith<br>(iii) cytuno y byddai'r Is-gadeirydd am y flwyddyn gyntaf (Mehefin 2023 – Mai 2024) yn gynrychiolydd a enwebir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef y Cynghorydd S. Williams<br>(iv) cynnal cyfarfodydd ar sail hybrid, gan roi ystyriaeth i'r manylion ym mharagraff 5.3 fel sy'n dilyn, i gael ei adolygu mewn 12 mis.<br>*"Argymhellwyd pellach y cynigir cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar sail hybrid, gyda'r opsiwn i gynnal y cyfarfodydd* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *mewn ardaloedd Awdurdod Lleol eraill. Os cynhelir cyfarfodydd mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill, dylid nodi y byddai angen i drefniadau cefnogi y cyfarfod hwnnw ar gyfer defnyddio'r system o fewn yr Awdurdod Lleol hwnnw gael eu darparu gan staff gwasanaethau democrataidd y cyngor hwnnw, gan gydymffurfio â pholisïau cyfarfodydd aml-leoliad y cyngor unigol".*<br>(v) Yn dilyn cytuno ar 6.1 (iv), cytunodd y Pwyllgor ar y lleoliad ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a gynhelir ar 6 Medi 2023. | |
| **No. 7** | **DRAFFT FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Drafft Fframwaith Rheoli Perfformiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chraffu ar y drafft Fframwaith Rheoli Perfformiad a roddir yn Atodiad 1 a rhoi adborth cyn ei drafod gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ar 22 Mehefin 2023. | |